
# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

MAWRTH 1978

RHIF 47




## Cymraeg yn Ben

**Yr ydym yn falch iawn i gyhoeddi fod Pwyllgor Cyhoeddusrwydd Eisteddfod Caerdydd wedi syrthio ar eu bai a bod y poster enfawr ar Cathays Terrace nawr ar ei newydd wedd — gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Gobeithiwn yn fawr y bydd popeth sy'n gysylltiedig â'r Eisteddfod yn rhoi'r flaenoriaeth i'r Gymraeg.**

**Pleser nawr yw dangos y poster sy'n hysbysebu Eisteddfod Caerdydd i'r byd a'r betws!**

**************************

# Tocyn Parcio'r Ganolfan

NEWYDDION DA I BLANT...... tudalen 7.

**Daw dau beth i'r meddwl yn syth wrth i rywun sôn am yr Eisteddfod Genedlaethol — sef MWD a PHARCIO. Maent ill dau cynddrwg â'i gilydd am greu trafferth a diflastod yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Gwyddom, wrth gwrs, na ellir osgoi'r mwd os yw'r tywydd yn anffafriol ac ni all neb, chwaith, ragweld hwnnw. Ond mater arall yw parcio — *rhaid* wrth drefniadau manwl a dealltwriaeth tu hwnt i'r cyffredin yn y Meysydd Parcio.**


**Mae'n amlwg fod y broblem hon wedi bod ym meddyliau Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Caerdydd gan iddynt gyfarfod noson Gŵyl Dewi i benderfynnu ar y mater. Penderfynwyd rhoi'r cytundeb i Ganolfan yr Urdd, Heol Conwy. Gwych o beth, wrth gwrs, yw hyn ond y fath gyfrifoldeb!**

Un peth yw gwerthu hufen ia, ond all y Ganolfan mewn gwirionedd drefnu meysydd parcio'r Eisteddfod i filoedd o geir am wythnos gyfan? Daw darlun o'r Ganolfan ar noson brysur i mi nawr, a'r fath anrhefn! Nid oes trefn parcio ar gyfyl y lle, ac mae ceir brith draphlith ym mhobman ...ar y palmant, ac yn yr ardd!

Sut felly bydd y Ganolfan yn delio â'r Parcio yn y Steddfod? Ateb Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith oedd y bydd angen o leiaf 50 o bobl y dydd, gyda tair shifft gwahanol yn gweithio. Gan y bydd tâl am y gwaith gobeithir y bydd amryw o fyfyrwyr yn manteisio ar y cyfle i ennill tipyn o arian.

Un gŵyn barhaol am bris parcio yn yr Eisteddfod yw ei fod yn afresymol o uchel. Hyd yma nid yw'r Ganolfan yn rhagweld y bydd gostyngiad yn y pris, ond ni fydd yn fwy chwaith.

Pwy felly fydd yn gofalu am ein parcio ni yn y man iawn yn Eisteddfod Caerdydd? Y newyddion da yw y bydd yn rhaid i bob un ohonynt siarad Cymraeg — yr oedd hyn yn rhan o'r cytundeb. Rhaid yw llongyfarch y Ganolfan a gobeithio yr aiff y trefniadau ar gyfer y Meysydd Parcio yn ddi-dramgwydd



# GOLYGYDDOL

Gyda'r cyhoeddiad fod ein Prifweinidog, Mr Callaghan, yn ymweld ag Eisteddfod Caerdydd fel Llywydd nos Sul amlygir fod trefniadau terfynol yr Eisteddfod yn cael eu cwblhau. Mae'r 'datganiad i'r wasg' (gwel. tud. 3) yn pwysleisio mai CYN i'r Eisteddfod gael ei hagor yn swyddogol y bydd ymddangosiad y Prifweinidog — tybed a yw hyn er mwyn sicrhau na fydd hi'n anodd i'r Llywydd siarad Saesneg ar lwyfan ein Prifwyl? Gwae'r syniad!

Er gwaetha'r prysurdeb ynglŷn â'r trefniadau terfynol ni fu unrhyw ymateb hyd yma i'r si parhaol y bydd y Tywysog Siarl yn ymweld â'n Prifwyl. Mae'n anodd gweld pa fantais fyddai o gadw ei ymweliad yn dawel. Felly rhaid yw derbyn y bydd y Tywysog ar Faes yr Eisteddfod ym mis Awst.

Yn ychwanegol at hyn, gwyddom am rai Cymry yma'n y ddinas nad ydynt yn ymlafnio llawer i helpu'r Eisteddfod oherwydd yr ansicrwydd a'r amhendantrwydd ynglŷn ag ymweliad y Tywysog Siarl. Er eu mwyn nhw, a'r Eisteddfod credwn fod datganiad nawr ynghylch y trefniadau yn angenrheidiol.

## CALENDR MAWRTH

| | |
|---|---|
| Mawrth 16: | Ysgol Gyfun Rhydfelen. Neuadd yr Ysgol. Datganiad ar yr Organ . |
| Mawrth 20 | Cymdeithas Gymraeg Caerffili. Gyngerdd gan blant ysgolion lleol. |
| Mawrth 20 a 21 | Ysgol Gyfun Rhydfelen. Neuadd yr Ysgol. Drama: *Amser Dyn* (Gwyn Thomas). |

## EBRILL

| | |
|---|---|
| Ebrill 4 | Merched y Wawr, Caerdydd. Pawb a'i hobi... Cyfarfod Cyffredinol. |
| Ebrill 6 | Cangen Plaid Cymru, Radur. Gwynfor Evans A.S. Neuadd Pentrepoeth, 7.30. |

COFIWCH ymgynghori â'r CALENDR CANOLOG cyn trefnu unrhyw achlysur. FFONIWCH Mallt Anderson — Caerdydd 753695.

OS BYDDWCH YN PRYNU NEU'N GWERTHU, MAE'N TALU FFORDD I YMGYNGHORI A'R ARBENIGWYR.
antiques UNLIMITED
PRYNIR EITEMAU SENGL NEU GYNNWYS TAI YN EU CRYNSWTH
7 Heol Penllin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Tel: 62748 neu 616415.

BYDD RHIFYN NESA'R DINESYDD YN YMDDANGOS AR Y *12 fed o Ebrill*. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn *Mawrth 23* os gwelwch yn dda. Danfoner at: 3 Heol Caerdydd, Ffynnon Daf, Caerdydd.

## O'R POST


*ANNWYL OLYGYDD,*

*Diolch yn fawr i'r Dr. Meredydd Evans am neidio ar ei geffyl fel marchog canoloesol i amddiffyn 'honneur' y dysgwyr yma yn y Brifddinas, yn erbyn ymosodiad 'affwysol o ddifoes' gan M.O. Hopkins. 'Rwy'n siŵr fy mod i'n siarad ar ran y dysgwyr hynny i gyd wrth ddweud hyn. Diau na ŵyr M.O. Hopkins pa mor bwysig i bawb sy'n dysgu iaith newydd yw gwrandawr amyneddgar a goddefgar, ac os oes gan ddyn mor brysur â Merêd yr amynedd angenrheidiol, byddai'n well i M.O.H. fagu yr un cyfeillgarwch yn hytrach na dirmygu ein hymdrechion. Rhaid iddo ystyried hefyd na fydd na safonau na Phrifwyl yn nes ymlaen os na cheir y dysgwyr dirmygedig hyn.*

*Ga i fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud diolch, trwy'r* Dinesydd, *i Merêd am ei holl weithgareddau, yn enwedig am gwrs o ddarlithiau, yn ystod y Gaeaf, ar waith Saunders Lewis. Rhaid i mi gyhoeddi hyn gan mai rhyw ddwsin ohonom yn unig a ddilynodd y cwrs. Bu cyfuniad o athrylith Merêd ac athrylith Saunders Lewis yn wefreiddiol! A yw'n bosibl fod holl boblogaeth Gymraeg y Brifddinas yn deall gwaith Saunders Lewis mor dda fel y gall anwybyddu'r cwrs hwn? "Scarcely believe!"*

*Yn gywir iawn,*

UN O'R DYSGWYR

CADERNIO GWYNEDD
BUDDSODDWCH YNG NGHYMRU


CYMDEITHAS TAI GWYNEDD
DANFONWCH HEDDIW AT
Dafydd Iwan
Cymdeithas Tai Gwynedd

Penygroes, Ffôn 730
Caernarfon
Gwynedd

Nos Iau, Mawrth 23 bydd cyngerdd o fri yng Ngholeg Cyncoed Caerdydd, fel rhan o'r gweithgarwch tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Bydd y soprano Helen Field o Wrecsam a'r pianydd Ingrid Surgenor sy'n byw ym Mhentwyn Caerdydd, yn rhoi perfformiad yn rhad ac am ddim er mwyn yr Eisteddfod.

Mae tocynnau £1 yr un ar gael gan Christine Suthern, 11 Bryncyn, Pentwyn, Teliffon: 750220.

Gellir prynu tocynnau hefyd yn Siop Gerddoriaeth Rowlands, High Street Arcade, ac yn Siop y Triban, Wyndham Arcade, Caerdydd.

Trefnwyd y Gyngerdd gan gylch Ysgol Feithrin Pentwyn.

## CALENDR YR EISTEDDFOD

| | |
|---|---|
| 4 MAWRTH 1978 | Bore coffi a ffair cacennau yn y Capel Lutheraidd, y Tyllgoed. |
| 8 MAWRTH 1978 | Sioe Ffasiynau gan Evan Roberts yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Tocynnau £1 o Swyddfa'r Eisteddfod, 24 Windsor Place, neu o Siop Evan Roberts, Kingsway. |
| 11 Mawrth 1978 | Noson o Ddramâu yn Neuadd Goffa Rhiwbeina. |
| 18 MAWRTH 1978 | Diwrnod gwerthu fflagiau ar strydoedd Caerdydd. |
| 22 MAWRTH 1978 | Cinio a Dawns yr Arglwydd Faer. |

* * * *

| | |
|---|---|
| 15 a 16 EBRILL 1978 | Y Ddrama Gymraeg 'Yr Wylnos' gan Gwmni'r Eisteddfod yn Theatr Bute (Coleg Cerdd a Drama Caerdydd). |
| 20 EBRILL 1978 | Noson Bop a Disgo yn Neuadd Ddawnsio Tito. |
| 29 EBRILL 1978 | Cyngerdd gan Gôr Godre'r Garth. Manylion yn rhifyn Ebrill. |
| 10 MEHEFIN 1978 | Garddwest yng Nghoedarhydyglyn. |
| 8 GORFFENNAF 1978 | Gŵyl Fawr yng Nghastell Caerdydd. |

# O'R STEDDFOD

## NEWID TREFN

Oherwydd bod cymaint o alw am docynnau i un o raglenni gyda'r nos yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd fis Awst nesa, mae pwyllgor yr Eisteddfod wedi penderfynu newid y trefniadau.

Y bwriad oedd llwyfannu pasiant 'Cyflwyno Caerdydd' gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Bryntaf, yn Theatr Sherman ar nos Wener a Nos Sadwrn wythnos yr Eisteddfod.

Ond eisoes, chwe mis cyn yr ŵyl, mae'n amlwg fod y Sherman, gyda seddau i lai na 500 o bobl, yn rhy fach ar gyfer y nifer mawr sydd eisiau gweld y pasiant. O ganlyniad i hyn, penderfynwyd symud y pasiant i'r Theatr Newydd sydd â dros fil o seddau.

Mae'r ddrama 'Nos Ystwyll' gan Gwmni Lleol yr Eisteddfod, a oedd i gael ei llwyfannu yn y Theatr Newydd, wedi cael ei symud i'r Sherman.

A fydd dadl ynglŷn â'r newid? Prin iawn, oherwydd Mrs Rhiannon Evans sy'n cynhyrchu Pasiant Plant Bryntaf, a'i gŵr, R. Alun Evans, sy'n cynhyrchu 'Nos Ystwyll'.

* * *

## CASGLIAD

Cafwyd caniatâd gan Gyngor Dinas Caerdydd i gynnal casgliad ar strydoedd y ddinas ddiwrnod y gêm rygbi ryngwladol rhwng Cymru a Ffrainc, sef 18fed o Fawrth.

Hwn fydd un o'r ymdrechion mawr i godi arian at yr Eisteddfod — ac mae'n gyfle ardderchog i'r sawl sy'n dymuno helpu. Rhowch eich enwau os gwelwch yn dda i Swyddfa'r Eisteddfod. Bydd angen cannoedd o gynorthwywyr ar David Clements sydd wedi cytuno i drefnu'r casgliad.

## PRIF WEINIDOG

Mae'r Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus James Callaghan, wedi derbyn y gwahoddiad i lywyddu mewn cyngerdd operatig yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Bydd y cyngerdd ym Mhafiliwn yr Eisteddfod ym Mhentwyn ar nos Sul, Awst 6ed, y noson cyn agor yr Eisteddfod yn swyddogol ar Awst 7fed.

Credir mai hwn fydd y tro cyntaf ers bron drigain mlynedd i Brifweinidog Prydain fod yn bresennol yn yr Eisteddfod. Roedd Lloyd George fel prifweinidog, ac ar ôl gadael 10 Downing St., yn mynychu'r Eisteddfod yn rheolaidd, ac am flynyddoedd lawer ef oedd llywydd yr Eisteddfod ar y dydd Iau.

Yn y cyngerdd bydd rhai o sêr Cymreig y byd opera — Syr Geraint Evans, Kenneth Bowen, Helen Watts ac Anne Edwards — i gyd yn rhoi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'r Eisteddfod. Wrth drefnu hyn cytunodd Pwyllgor Lleol Eisteddfod Caerdydd â chais Syr Geraint Evans fod deg y cant o elw'r noson yn mynd at achos da, sef at ymchwil yr arennau.

Yn y cyngerdd hefyd bydd Côr yr Eisteddfod a Cherddorfa Simffoni Gymreig y BBC dan arweiniad Owain Arwel Hughes yn canu darnau allan o operau poblogaidd.

* * *

## BLODEUWEDD

Bydd drama gan Saunders Lewis yn un o atyniadau Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd fis Awst nesaf — a'r prif ran yn cael ei chwarae gan wyres Mr Lewis, Miss Siwan Jones. Mae Siwan ar ei thrydedd flwyddyn yn yr adrannau Cymraeg a Drama. Mae yn un-ar-hugain oed ac yn ferch i Mr a Mrs Haydn Jones, sy'n byw yn Llandâf.

Y ddrama yw *Blodeuwedd* ac fe fydd yn cael ei llwyfannu yn Theatr yr Arena ar ddwy noson yn ystod wythnos yr Eisteddfod gan gwmni drama Coleg y Brifysgol, Aberystwyth. Y cynhyrchydd fydd Mrs Emily Davies.

*Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau Deddwyrain Cymru.*

# STEDDFOD ARALL

**Mae un gŵr sy'n byw yng Nghaerdydd yn sicr o godi ei aeliau bob tro y bydd yn clywed am gost enfawr llwyfannu'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf — cost sydd yn debyg o fod tua £450,000. Roedd Mr J. Rhys Lewis, sydd yn awr wedi ymddeol ac yn byw yn Heol Cyncoed, yn ysgrifennydd Eisteddfod Machynlleth ym 1937 — dros ddeugain mlynedd yn ôl.**

Yn ŵr ifanc bu Mr Lewis yn swyddog radio ar y môr am ddeuddeng mlynedd, ac yn bennaeth ysgol radio yn Abertawe am dair blynedd arall. Ond cyn 1935 roedd wedi dychwelyd i'w dref enedigol, Machynlleth, ac roedd yno pan ddechreuwyd sôn am wahodd y Genedlaethol. Doedd ganddo y pryd hwnnw fawr o ddiddordeb mewn eisteddfod — ond gan fod ganddo deipiadur a pheiriant lluosogi gofynnwyd iddo ddosbarthu cyhoeddiad yn galw cyfarfod cyhoeddus. Ac o dipyn i beth fe gafodd ei hun yn ysgrifennydd yr ŵyl. "Petawn ni wedi sylweddoli maint y dasg fyddwn i byth wedi ymgymryd â'r gwaith," meddai. Machynlleth gyda phoblogaeth o 1,800 oedd un o'r trefi lleiaf i gymryd y Genedlaethol erioed.

Fel pob Eisteddfod, ni fu gŵyl Machynlleth heb ei helyntion a'i phroblemau, fel y mae Mr Lewis yn cofio'n dda.

Roedd yr ŵyl yn cael ei chynnal ymhen blwyddyn ar ôl helynt yr Ysgol Fomio yn Llŷn. Roedd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ar dir plas Machynlleth ac roedd perchennog y plas, yr Arglwydd Londonderry, yn aelod o'r Llywodraeth. Roedd hefyd wedi cael ei wahodd i lywyddu'r Eisteddfod ar y nos Lun. Ddau fis cyn yr ŵyl, gwrthododd saith o'r beirniaid weithredu am fod Londonderry i lywyddu — gwŷr blaenllaw fel yr Athro W.J. Gruffydd a Mr Iorwerth Peate. Dewiswyd beirniaid newydd, ond gwag fu cadair y cadeirydd ar y nos Lun gan i Arglwydd Londonderry benderfynu peidio dod ar gyfyl yr Eisteddfod er mwyn osgoi cyffroi'r dyfroedd ymhellach.

Ddaeth beirniad y stori fer ddim ar gyfyl yr Eisteddfod chwaith. Roedd Mr D.J. Williams yn treulio'r ŵyl yn Wormwood Scrubs ac yno y cloriannodd ef y pedair stori ar ddeg a ddaeth i law. Honnir, gyda llaw, fod tua hanner y storïau wedi cael eu hysgrifennu yn fwriadol er mwyn i D.J. gael gwybod beth oedd yn digwydd yn y byd y tu allan i furiau'r carchar!

Ar fore Iau'r Ŵyl nid y tân yn Llŷn, ond tân arall a daflodd yr Eisteddfod i argyfwng. Yn yr oriau mân fe aeth pwerdy trydan yn perthyn i gwmni lleol ar dân, gan adael maes yr Eisteddfod, a'r dref yn y tywyllwch! Daeth yr Arglwydd Londonderry i'r adwy a rhoi caniatâd i ddefnyddio cynhyrchydd trydan y plas. Un gorchwyl arall a gafodd Mr Lewis y bore dydd Iau hwnnw oedd sicrhau Mr A.J. Sylvester, ysgrifennydd Mr David Lloyd George, nad gweithred wleidyddol oedd llosgi'r orsaf drydan a'i bod yn ddiogel i'r gwron eisteddfodol fentro i'r llwyfan yn y prynhawn i draddodi ei araith.

Ond nid argyfyngau fu'r hanes i gyd, o bell ffordd. Dywed Mr Lewis heddiw fod Eisteddfod Machynlleth yn bwysig am dri pheth. Yn gyntaf, dyma pryd y dechreuwyd y ddawns flodau — syniad Cynan, a oedd newydd gael ei wneud yn Gofiadur yr Orsedd. A chyda llaw, Miss Bet Lewis, chwaer Mr J. Rhys Lewis, a drefnodd y ddawns flodau gyntaf. Yng nghylch yr Orsedd yn unig y cynhelid y ddawns ar y dechrau wrth gwrs — yn ddiweddarach y daeth hi yn rhan o seremoni'r llwyfan.

Yn ail, yn Eisteddfod Machynlleth y cafwyd am y tro cyntaf seremoni i gyflwyno Medal Rhyddiaith Bur — gyda'r bwriad o wneud y Fedal Ryddiaith yn gyfartal o ran statws â'r gadair a'r goron.

Yn drydydd, yn Eisteddfod Machynlleth y mabwysiadwyd y cyfansoddiad newydd. Cynhaliwyd cyfarfod unedig o Gymdeithas yr Eisteddfod a Bwrdd yr Orsedd i ffurfio Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol yn gyfansoddedig o aelodau'r ddau gorff. Dyna rai o atgofion Mr J. Rhys Lewis — a rhai yn unig — oherwydd mae ganddo gof byw am y flwyddyn ddiddorol honno.

A'i farn am eisteddfodau'r saithdegau: "Mae wedi mynd yn ormod o sioe."



# QUEBEC

**Yn ddiweddar bum yn ymweld â Quebec er mwyn gwneud astudiaeth o genedlaetholdeb yno. Yn ystod f'ymweliad gwneuthum gyfeillion o blith aelodau'r Parti Quebecois, sef Plaid Genedlaethol Quebec. Hefyd fe'm gwahoddwyd i Gyfarfod Misol y Cyngor Cenedlaethol lle cyfarfum â rhai o swyddogion y Llywodraeth.**

Ers f'ymweliad blaenorol pan nad oedd ond 6 Aelod Seneddol gan y Parti Quebecois bu etholiad arall (Tachwedd '76) ac ennillodd y Parti 71 allan o 110 sedd i'r Cyngor Taleithiol. Ers hynny cyflwynodd y Parti amryw o ddeddfau newydd i'r Senedd.

Un ddeddf sy o ddiddordeb i ni yng Nghymru yw *Deddf 101* a gyflwynwyd er mwyn newid *Deddf 22* — y Ddeddfwriaeth Iaith (1974) oedd yn wan iawn o safbwynt yr iaith. Quebec oedd yr unig wlad yn y byd nad oedd yn cymathu ei lleiafrifoedd (mewnfudwyr) i ddiwylliant y mwyafrif (Ffrangeg). Y rheswm am hyn oedd mai pwnc dadl ffederal yw mewnfudo, a rhoddai'r Llywodraeth Ganolog bob cefnogaeth i fewnfudwyr i symud i Quebec ac yna roi cyfleusterau iddynt i ymdoddi i'r lleiafrif Saesneg eu hiaith.

Ond mae Deddf 101 yn datgan mai Ffrangeg yw iaith swyddogol Quebec nawr, a bod raid i bobl sy'n dewis byw yn y wlad addysgu eu plant yn Ffrangeg.

70% o boblogaeth Quebec sy'n siarad Ffrangeg ac mae nifer uchel o'r rhain yn uniaith Ffrengig. Gyda llaw, mae Quebec seithgwaith cymaint a Ffrainc ac allan o boblogaeth o 5 mil mae 2 fil yn siarad Ffrangeg yn naw talaith Canada yn arbennig yn Nova Scotia = New Brunswick.

Bu'r frwydr yn erbyn y siaradwyr Ffrangeg yn warthus — nid oedd addysg uwch ar gael iddynt hyd yn ddiweddar, ac felly gorfu i'r mwyafrif ohonynt fodloni ar fod yn 'weithwyr' yn hytrach na 'pherchnogion'. Daethai'r rheolwyr a'r swyddogion o'r cymdeithasau Saesneg eu hiaith.

Yn naturiol, nid oherwydd rhesymau ieithyddol yn unig y gwrthwynebwyd y Ddeddf Iaith, yr oedd y rheswm ariannol a chyfalafol yn gryf hefyd: ni ellir ymelwa'n ariannol ar bobl sy'n ddiwylliannol rydd. (Cynharer hyn â'r sefyllfa yng Nghymru yn y ganrif ddiwethaf, lle dinistriwyd yr iaith gan y diwydiannwyr Saesneg gyda'r canlyniad na allai'r gweithwyr ddadlau cystal ynghylch cyflwr eu gwaith.)


Wrth i un diwylliant ymelwa'n ariannol ar ddiwylliant arall yn Quebec crewyd y sefyllfa lle mae dyfodol y genedl yn dibynnu ar Ddeddf 101.

Crewyd math o hysteria gan y cyfryngau Saesnig, sy'n cymryd agwedd cwbl anonest. Mynna'r Wasg alw'r Parti Quebecois yn "Separatist", a dweud hyn am Barti sydd iddo'r arwyddair "Sovereignty and Association"! Mae dyletswydd foesol gan y Wasg i gyfrannu *newyddion* yn y papurau ac ar y teledu a'r radio. Petai'r papurau newydd Saesneg, fel y *Montreal Star* neu'r *Gazette* yn ymddangos ym Mhrydain buasent yn mynd yn groes i'r Deddf Disgrifiad Masnachol. Dylai gohebydd roi adroddiadau yn gywir ac nid datgan ei farn bersonol ei hun ar unrhyw ddigwyddiad; dylai farnu pob digwyddiad yn ddi-duedd. Ond yng Nghanada a Quebec ar y funud nid yw hyn yn digwydd yn y Wasg Saesneg, yno nid oes y fath beth a "Rhyddid y Wasg". (Rhaid ini gofio na cheir y rhyddid hwn yn ein gwlad ni chwaith gan fod y Wasg yma hefyd yn cael ei rheoli gan fasnachwyr.)

Yn Quebec mae'n llawer gwell cael swydd a bod o blaid ffederaliaeth, gall 'rhyddid' fod yn rhy beryglus. Does dim hwyl mewn bod yn ohebydd os na chyhoeddir eich stori!

Mae'n amlwg, felly, y bydd llawer iawn o wrthwynebiad i Lywodraeth y Parti Quebecois, a'r iaith yw'r arf fydd yn cael ei defnyddio i'w dymchwel. (Bydd hyn er gwaetha'r ffaith mai'r 70% o siaradwyr Ffrangeg yw'r mwyafrif yn Quebec.) Dychmygwch, felly, yr ymdrech fydd yn rhaid i ni wrthi yma yng Nghymru'r dyfodol, yn fwy nag yn y gorffennol, er mwyn diogelu ein hiaith, heb sôn am ein cenedl.

CHERIE SHAH



*Meredith Edwards yn cyfarwyddo drama Michael Povey* — y **Cadfridog** — *sydd ar daith gan Theatr yr Ymylon. Bydd cyfle i weld y ddrama yn* **Chapter** *o'r 14-18 o Fawrth.*


## HYSBYSEBU

**Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysyllter â:**

**CYHOEDDWYR CLEGLEN CYF.**
**55 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf,**
**Caerdydd CF1 8LW.**
**Ffôn: 0222 - 396262**

(Danfoner pob deunydd hysbysebu i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda.)

**MUDIAD YSGOLION MEITHRIN**

## SWYDD CLERC/TEIPYDD

Gwahoddir ceisiadau am swydd Clerc/Teipydd llawn amser yn Swyddfa'r Mudiad yng Nghaerdydd.
Gwybodaeth drwyadl o'r Gymraeg yn angenrheidiol, ond nid i bwrpas llaw-fer.
Cyflog dechreuol £2,000 y flwyddyn.
Manylion llawn, a ffurflen gais oddi wrth Y Cyfarwyddwr, Mudiad Ysgolion Meithrin, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Canton, Caerdydd, i'w dychwelyd iddo o fewn pythefnos i ymddangosiad yr hysbyseb hwn.

# TRWY LYGAID PLENTYN



*(Arddangosfa Genedlaethol y* Western Mail *o gelfyddydd plant yn yr Amgueddfa Genedlaethol.)*

*Mae'n debyg mai'r Arddangosfa hon bellach sy'n adlewyrchu celfyddyd plant ysgolion Cymru. Y tro hwn dewiswyd tua 200 o eitemau o blith rhyw 3,000 a ymgeisiodd. (Adroddiad yn y rhifyn nesa.)*


YN EISIAU

YSGRIFENNYDDES
I WEITHIO YNG NGHANOLFAN YR URDD CAERDYDD.
5 BORE BOB WYTHNOS YN YSTOD Y FLWYDDYN YSGOL. CYSYLLTWCH A'R WARDEN AM FWY O FANYLION.
FFÔN 36201.



UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU
yw'r *unig Undeb*
sydd â'i bencadlys yng Nghymru
sy'n buddsoddi ei arian i gyd yng Nghymru
sy'n *unfryd, unfarn* o blaid addysg Gymraeg
sy'n credu fod Cymru'n genedl
sy'n rhoi buddiannau plant ac athrawon Cymru'n *gyntaf*
*Sut yn y byd gall athrawon sy'n Gymry gwlatgar berthyn i unrhyw Undeb arall?*
UCAC, 11 Heol Gordon, Caerdydd CF2 3AJ.
Ffôn: 494692.


# colofn sbectol * SIAN

## GAN Y POST

Blib, Blip, Blip, Blip — O damia'r ffôn yna. Mae o'n canu ar yr adegau mwyaf anghyfleus yntydi, a finna newydd eistedd i sgrifennu 'chydig unwaith eto. Newydd gael y ffôn ydwi yn anrheg gan y gŵr. Mae o'n un arbennig iawn mewn 'Balmoral Blue' (y ffôn nid y gŵr) a wnaethpwyd gan y Swyddfa Bost yn arbennig i ddathlu'r Jiwbili. Dyma f'adduned blwyddyn newydd wedi'i dorri'n barod — o hyn ymlaen dim mwy am y ------. Fel y dywed y pamffledyn bach — mae'r symbol yn ymddangos yn "prominently yet tastefully" arno.

## YN Y POST

"Distress — Despair" a ymddangosodd yn 'prominently' ar farc post llythyr a dderbyniais yn ddiweddar. Fel y tybiais, bwndel o bapurau, ffurflenni ac ati o Swyddfa Cymdeithas yr Iaith oedd yn yr amlen. "Dyma'ch cerdyn aelodaeth o'r diwedd," medd geiriau cyntaf un llythyr. Doeddwn i ddim yn rhy hapus a dweud y gwir — nid am fod y cerdyn wedi cyrraedd gryn bum mis ar ôl i mi ail ymaelodi, ond am mod i wedi derbyn pecyn cyffelyb, yn cynnwys cerdyn aelodaeth tua pythefnos ynghynt! Rhowch dipyn o drefn ar y swyddfa hogia gan fod eich dyled rŵan yn ddwy fil pum cant o bunnoedd a naw ceiniog.

## O'R POST

Fel y disgwylir roedd apêl am arian yn y ddau becyn. Gofynnir am arian i gronfa'r Achos Cynllwynio. Oes rhywun nad yw'n gwybod am yr Achos? Rhag eich cywilydd! Darllenwch lythyr Sion Alun a gyhoeddwyd yn *Y Dinesydd* diwethaf. Gadewch i ni'ch atgoffa "Mae dau o arweinwyr Cymdeithas yr Iaith mewn perygl difrifol o golli eu rhyddid." Gobeithio eich bod wedi gyrru cyfraniad i "ddangos eich cefnogaeth i'r ddau" wrth iddynt wynebu cyhuddiad creulon a digywilydd o gynllwynio.

## POST MORTEM

Son am gynllwyn, beth am Y National Union of Teachers — South Glamorgan County Division? Gan sylwi ar lythyr ricriwtio tywyllodrus a anfonwyd at athrawon y sir yn ddiweddar tybed nad yw popeth yn y cnau (N.U.T.) yn iach. Dyma rai o'r "important advantages" o ymaelodi a'r undeb Seisnig hon:

"The fact that the N.U.T. subscription is substantially lower than the other unions (N.A.S./U.W.T. — £15)." Twyll! Anwybyddwyd U.C.A.C. sydd a thâl aelodaeth llawer is.

......"it is eligible for income tax rebate unlike that of other 'unions'." — Celwydd!

Gallwch roi cais am ostyngiad treth yn enw U.C.A.C. hefyd.

Felly chi athrawon peidiwch â chael eich camarwain gan brifathrawon a chynrychiolwyr undebau seisnig, a'ch "cyd-athrawon hynny a adwaenoch sy'n Gymry pybyr ond yn parhau'n aelodau o undebau anghymreig a gwrth — Gymreig. A'r genedl Gymreig yn y fath argyfwng, ni ellir esgusodi eu anghysondeb." (Cylchlythyr U.C.A.C. Ionawr 1978.) Efallai y buasai'n syniad da i ddechrau rhestr o'n cyd-Gymry adnabyddus sy'n aelodau o'r undebau hyn!

## ARWYDDBOST

Mae'n edrych yn debyg fod yr ymdrech fawr i godi arian ar gyfer prynu pencadlys newydd i Blaid Cymru wedi godro'r pwrs i'r eithaf. Tybed oedd ceiniog neu ddwy yn rhywle i sicrhau bodolaeth arwyddbost a baner arno neu hyd yn oed arwydd syml er mwyn i mi a phobl y byd gael gwybod yn union ble mae calon ein cenedl?

Blip, Blip; Blip, Blip... o mae'r hen ffôn yna'n dal i ganu!

P.S. — Golygfa: Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth.

Blip, Blip...

Pwy sy na?

Ian ap Dewi.

Ian ap Dewi pwy?

Os nad ydych yn deall galwch heibio i ffonio Aberystwyth 3744/5. Mae'n amheus gen i os y cewch eglurhad ond fe gewch ddefnyddio fy ffôn 'Balmoral Blue' newydd. Blip, Blip; Blip, Blip.

# Hergest

**HIRDDYDD HAF......HERGEST (Sain 1102M)**
*Pris £2.99*

**Wrth wrando unwaith eto ar leisiau a cherddoriaeth y grŵp arbennig hwn all dyn ddim peidio a sylwi ar y ffresni sydd i'w gael yn eu caneuon. Rhaid diolch i Gwmni Recordio Sain am gynhyrchu'r record mor dda... melys moes mwy!**

Mae dau aelod newydd y grŵp – Rhys Ifans (Bâs) a Gareth Thomas (Drymiau) – yn ymddangos ar y record hon a gallwch fod yn siwr eu bod yn ychwanegu rhywbeth pendant at y grŵp. Clywir cyfuniad gwych o'r gitar fâs a'r drymiau ar y gân "Cofio Blino", ond ni cheir gormodedd o ganeuon 'bît' fel hon ar y record. Yn wir ceir cyfuniad pleserus o ganeuon difrifol a swynol a rhai 'dawnsiadwy'. Ceir caneuon cyflym sy'n glynu'n y cof ac yn dangos dawn offerynnol y grwp, fel "Gwibio'n ôl" gan Geraint a "Tyrd i Ddawnsio" gan Delwyn.

Yn bersonol mae'n well gen i ganeuon araf y grŵp. Mae'r gân "Ffair Llandeilo" gan Derec yn syml iawn ar yr wyneb, ond mae'r cyfuniad cerddorol o gitâr, acordion a llais yn creu naws arbennig iawn. Cân arall sy'n rhoi profiad cerddorol arbennig, ynghŷd â chyfleu tristwch yw "Cysgod y Coed" gan Derec:

Tywi Fechan, Ffald y Gwynt,
Pant Carnau, Penmaengwyn,
Abemant a'r Llethr Goch
Dim ond enwau erbyn hyn...

Dyma record sy'n werth ei chael, a record yw y gallwch wrando arni unrhyw amser a'i mwynhau, a chael cyfoeth o gerddoriaeth ac o Gymraeg.

B.T.





**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

2 RECORD HIR DDWBWL NEWYDD SBON GAN *ORIEL*

OR 005/6 Barddoniaeth Eingl-Gymreig 1470-1970 (Dewiswyd gan Raymond Garlick)

OT LL7/8 Barddoniaeth Gymraeg 550-1950 (Dewiswyd gan Dafydd Rowlands)

Sian Phillips, Glanffrwd James, James Jones a Rhydwen Williams yn darllen.

£5.50 yr un o'r llyfrwerthwyr lleol neu £5.86 drwy'r post o *ORIEL*.


# Mynediad am Ddim

RHWNG SAITH STÔL............MYNEDIAD AM DDIM (*Sain 1103M*) – Pris: £2.99.

**Dyma drydedd record hir Mynediad am Ddim, ac er bod yr aelodaeth wedi newid ar gyfer pob record, mae cysylltiad agos rhwng y grŵp a Chaerdydd o hyd. Ymsefydlodd Emyr Wyn yma fel cyflwynydd y rhaglen *Bilidowcar* ar y teledu, ac er bod Peter Jones yn y coleg yn Aberystwyth mae ei gartref yma yn y brifddinas. Clywir cyfraniad Ems a Sbardun yn glir ar y record, er bod y ddau wedi gadael y grŵp erbyn hyn, ond mae eu cartrefi hwythau hefyd yng Nghaerdydd.**

Cynnwys y record nifer o ganeuon Ems, ynghŷd â dwy gân werin, dwy gân o eiddo Peter, a'r unig gân sy'n swnio fel y Mynediad am Ddim cynnar, sef "Boed i Gymru" gan Meredyd Evans a Harri Webb.

Ar y cyfan, caneuon modern yw rhai Ems, gyda nifer o gyfeiriadau dinesig. Yn y gân "Mae'r byd yn wag" tybed a yw'n son am yr holl ruthr yng nghanol Caerdydd ar brynhawn a nos Sadwrn pan ddywed "Mae'r byd wedi mynd o'i go?" Ond gall Ems eistedd nol yn ei fflat a theimlo mor falch â phaun gyda caneuon arbennig fel "Cofio dy Wyneb", "Yn y dre 1913", "Gwaed i'r Llwch" a'r hyfryd "Hi yw fy ffrind" sydd iddi'r un naws a *Yesterday* Paul McCartney.


Rhaid canmol y gwaith offerynnol, yn enwedig medrusrwydd Graham ar y piano a'r ffidil. Sain gitarau acwstig a mandolin yw nodwedd y grŵp, ond gyda dyfodiad Peter fe glywir gitar drydan yn ymdoddi'n llyfn i rai o'r caneuon, ond blerwch braidd yw'r cyfraniad ar "Gwaed i'r Llwch". Weithiau hefyd nid yw'r drymiau a'r bâs yn taro deuddeg fel ar "Lwcdaith" – gwell fuasai cadw honno'n hollol acwstig.

Serch hynny, record i'w mwynhau yw hon. Mae'r caneuon yn dda, mae'r canu'n dda ac mae'r offerynnau'n cael eu chwarae'n ganmoladwy. Felly, eisteddwch, gwrandewch a mwynhewch!

MANSEL DAVIES



# Llyfr i Blant




**FFAU'R LLEWOD............CEN WILLIAMS**
**Pris 75c, Y LOLFA.**

**Os yw'ch plant chi'n derbyn y comic Cymraeg *FFWLBART*, ac os ydych chi wedi gweld y cartwnau sy'n ymddangos ar dudalennau'r *DINESYDD*, yna yr ydych eisoes yn hen gyfarwydd ag awdur y llyfr hwn.**

Dyma'r llyfr i chi ei brynu os mynnwch gadw'r plant yn ddiddan drwy gydol gwyliau'r Pasg. Mae'r 95 tudalen yn cynnwys amrywiaeth anhygoel o bethau i'w gwneud, gemau i'w chwarae a phosau i'w datrys. Yn ogystal ceir lluniau difyr yn frith drwy'r llyfr, fel y gallwch ddisgwyl gan gartwnydd mor wych.

Mae digonedd o gwisiau yn y llyfr i beri dryswch am oriau. Hefyd mae dyfeisiadau lu i ddefnyddio ynni creadigol y plant. Yn ychwanegol ceir ffeithiau diddorol ac anghyffredin...... Wyddoch chi, er enghraifft, fod y pedwar llew o boptu'r bont reilffordd ar draws y Fenai yn pwyso tua pum tunnell yr un? Wyddoch chi fod y teigr yn treulio llawer o'i amser yn y dŵr a'i fod yn nofiwr da? Tybed allech chi ddatrys y broblem hon — Os yw pedwar yn canu cân mewn pedwar munud, faint o amser a gymer deg plentyn i ganu'r gan?

Wrth ddilyn cyfarwyddiadau (geiriol a darluniol) y llyfr gall y plant wneud bolyn totem, masgiau, tanc pysgodyn neu berisgop! Felly fe welwch mai dyma lyfr anhepgor i'r plant a byddant hwythau'n sicr o werthfawrogi'r cyfarwyddiadau Cymraeg clir a naturiol.






## NEWYDDION CWM RHYMNI

**DROS DWY FIL I'R STEDDFOD**

Mae Cronfa Cwm Rhymni at Eisteddfod Caerdydd eisoes wedi codi mwy na dwy fil o bunnoedd ac mae nifer helaeth eto o ddigwyddiadau ar y gweill. Dyma ran o'r arlwyaeth yn ystod mis Mawrth —

Mawrth 1–4 Casgliad ger archfarchnad Carrefour, Caerffili.
Mawrth 6–11 Arddangosfa Luniau ym Margoed.
Mawrth 3 Dawns yng Nghanolfan Penpedairheol.
Mawrth 20 Cyngerdd gan blant ysgolion lleol yng Nghaerffili.
Mawrth 22 Noson Goffi a Sioe Ffasiynau yn y Lesser Hall, Bargoed.
Mawrth 22 Cyfarfod Pregethu yng Nghwm yr Aber.

— does neb yn gallu achwyn am ddiffyg amrywiaeth fan hyn! Ymysg y digwyddiadau mwyaf llwyddiannus yn y flwyddyn newydd llwyddodd pwyllgor Tredegar Newydd i godi dros ddau ganpunt mewn Arddangosfa o waith llaw Mrs Eluned Harries Williams yn y pentref — a deallwn fod archebion am ragor o'i gwaith celfydd yn parhau i lifo i mewn!

**DAU FWS I'R STEDDFOD**

Yn dilyn cais oddi wrth Bwyllgor Cronfa Cwm Rhymni mae'r Cyngor Ardal wedi cytuno i drefnu dau fws y diwrnod i deithio o dref Rhymni drwy'r Cwm ac i faes yr Eisteddfod. Rhagwelir y bydd trigolion y Cwm yn falch o'r gwasanaeth hwn — yr unig ofid yw'r posibilrwydd na fydd dau fws yn ddigon.

**STEDDFOD GWENT**

Cynhelir Eisteddfod Sir Gwent (sy'n cynnwys Cwm Rhymni at bwrpas yr Urdd) ar Ddydd Sadwrn, Mawrth 11. Gellir cael ffurflenni cystadlu gan yr Ysgrifenydd newydd, Ann Evans, Uned Gymraeg Ysgol Pengam (Ffôn cartref: Caerdydd 373822).

**CROESO...** i faban newydd Chris a Joy Davies, Caerffilli — un arall i chwyddo rhengoedd ysgolion meithrin y cylch!


# 5·15pm ar y Sul

Bob nos Sul am 5.15p.m. mae Derec Llwyd Morgan yn cyflwyno llenorion, cerddorion, beirdd ac arlunwyr ifainc yn y gyfres grefyddol 'Cred a Chrefft'. Bydd y gwesteion hefyd yn cyflwyno enghreifftiau o'u gwaith ac yn trafod eu ffydd.

HTV CYMRU WALES

o'r Ganolfan Deledu, Caerdydd.


# *Apêl ar ran y Dysgwyr!*

*Fe wyddom ni oll, tebyg iawn, erbyn hyn,*
*A diolch i'r drefn, mae hi'n ffaith,*
*Fod amryw i ddysgwrs yn ceisio yn syn*
*Gael crap ar ddirgelwch ein hiaith.*

*"Nawr gwrando yn astud sy'n rhaid," meddaf fi,*
*"Ar beth rwyf ar fedr gyhoeddi;"*
*Gall fod yn dra chaled i'r dysgwrs tra chu*
*Wneud sens o anhawsters llefaru.*

*Mae treigliads a chenedls a berfs rhyfedd iawn,*
*Cymysgedds o beths afreolaidd;*
*Dim syndod fod dysgwrs, bore a nawn,*
*Yn gorwedd o gwmpas yn farwaidd.*

*Ac felly — a dyma fy arch arnoch chwi,*
*I wneud bywyd dysgwrs yn heulogs,*
*Un peth bach di-nod-O! a allen ni*
*Roi cic i'r uffernol lluosogs?*

DIC JAMES

# CYMDEITHAS NEWYDD

**CYMDEITHAS BRO RADUR**

Mae nifer da o deuluoedd Cymraeg yn Radur bellach (ni chynigir yma unrhyw reswm pam!), ac mae hefyd gryn nifer sy'n dysgu'r iaith — mae pedwar dosbarth yn yr Ysgol Gyfun leol yn wythnosol. Yn ddiweddar penderfynwyd ffurfio cymdeithas newydd i'r ardalwyr a rhai sy'n byw'n gyfagos i ddiben cymdeithasu yn y Gymraeg mewn gwahanol ddulliau, er mwyn cefnogi'r dysgwyr a rhoi cyfle iddyn nhw ymarfer yr iaith a theimlo'n fwy o Gymry. Gobeithir hefyd fedru trefnu gweithgareddau i'r plant, yn enw'r Urdd efallai — ond rhaid cropiau cyn cerdded. Pe bai'r Gymdeithas wedi'i sefydlu flwyddyn yn ôl, fe fyddai yma gôr a drama yn barod!

Un cyfarfod a gynhaliwyd hyd yma, ac fe drefnwyd nifer o gyfarfodydd rhwng nawr a'r haf, gan gynnwys Swper Gŵyl Ddewi Nos Wener, Mawrth 3, ac un o fechgyn disglair Radur, Y Barnwr Dewi Watcyn Powell yn ŵr gwadd; noson gerddorol ar nos Wener, Ebrill 14; noson hwyliog o holi timau a theuluoedd gyda John Evans (Campus) ar Fai 19, a chan obeithio y bydd yr haf yn dod eleni, noson arbennig i'r plant ar ben Mynydd y Garth, nos Wener, Mehefin 23. Fe sylwch mai ar nosweithiau Gwener y mae'r Gymdeithas yn cwrdd, a hynny yng Nghanolfan Oedolion yr Ysgol Gyfun. Mr Robin Jones yw'r Llywydd eleni a Mr John Lewis yw'r Ysgrifennydd. Byddai'r ddau yn falch o geisio trefnu noson ar y cyd gyda Chymdeithas Gymraeg bro arall yng nghylch y brifddinas rhyw nos Wener yn ystod y gaeaf sy'n dilyn Eisteddfod Caerdydd. Cysylltwch ag un ohonyn nhw os oes diddordeb gennych.

**MUDIAD YSGOLION MEITHRIN**
**Swydd Cyfarwyddwr**

Oherwydd penderfyniad y Cyfarwyddwr i ymddeol yn ystod yr haf, gwahoddir ceisiadau am y swydd o

**GYFARWYDDWR**

i Fudiad Ysgolion Meithrin at Fedi 1, 1978.
Disgwylir profiad gweinyddol, addysgol, neu gymdeithasol, a medr i gyfarwyddo ac arolygu gwaith y swyddfa yng Nghaerdydd, a gwaith Swyddogion y Mudiad ym mhob sir a rhanbarth o Gymru.
Ceir manylion llawn a ffurflen gais oddi wrth:-

Y Cyfarwyddwr,
Mudiad Ysgolion Meithrin,
Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Canton,
Caerdydd

i'w dychwelyd iddo o fewn pythefnos i ymddangosiad yr hysbyseb hwn.

**Ga i ddechrau fy ngyrfa fel Swyddog Datblygu newydd De Morgannwg trwy ddatgan diolch ar ran y cylchoedd Meithrin i gyd i Shân Emlyn am weithio mor galed a brwdfrydig yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac hefyd am fod mor barod ei chymorth a'i chyngor i minnau yn y swydd newydd. Rydym i gyd yn dymuno'n dda iddi yn y dyfodol.**

Trwsgwl iawn ydy'r mis cyntaf yma wedi bod, gyda'r pwyslais ar gynnal y cylchoedd sy'n bod yn barod yn hytrach na datblygu rhai newydd. Hyd yma mae dwy ysgol mewn perygl o golli eu hystafelloedd — gobeithir y cawn ystafelloedd newydd iddynt cyn hir.

Yn ychwanegol at y broblem o chwilio am ystafelloedd addas mae'r broblem o gynnal yr ysgolion yn ariannol gyda ni o hyd, ond mae pawb yn gweithio'u gorau i godi arian yn gyson. Yn ddiweddar trefnodd Ysgol y Waun noson lwyddianus iawn yn Neuadd y Ddinas gyda Chôr Treorci. Bu hefyd noson lwyddianus gyda Ysgol Feithrin Radur i ddathlu Gŵyl Santes Dwynwen — mae'r noson yn draddodiad erbyn hyn! Trefnodd Ysgol Feithrin Llanilltud Fawr noson i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Ysgubor John Llaeth ar Fawrth 4ydd.

Mae'r nifer o blant sy'n ddysgwyr yn yr ysgolion meithrin yn syfrdanol o uchel o'u cymharu a'r nifer sy'n Gymry Cymraeg. Teimlaf felly, ei bod yn eithriadol bwysig i'r plant a'u rhieni gael ymgyfarwyddo â sŵn yr iaith cyn gynted ag sy'n bosibl.

Felly, os oes unrhyw un ohonoch mewn cyswllt ag ysgol feithrin gyda'r ddawn neu'r hyder i ddysgu'r iaith i eraill byddwn yn falch iawn petaech yn fodlon cynnal gwersi i grwpiau bach o ddysgwyr yn eich tai (neu os oes amser a lle yn yr ysgol feithrin). Fel hyn bydd y plant a'u rhieni yn hen gyfarwydd a'r iaith erbyn iddynt ddechrau mynychu'r ysgol feithrin, ac un cam ymlaen at feistroli'r iaith.

AVRIL JONES

Neuadd Reardon Smith, Park Place, Caerdydd.
**CYNGERDD MAWREDDOG**
Nos Sadwrn, Ebrill 15fed am 7 o'r gloch
gan
GÔR MEIBION YSTRADGYNLAIS
gyda
Nesta Bowen (Contralto)
Dafydd Edwards (Tenor)
Beti a Carys (Penillion)
Richard Rees (Bass)
Y Diliau
Cyfeilydd: Janice Ball
Arweinydd: Robin Jones (BBC)
Llywydd : Y Barnwr Dewi Watkin Powell

Mynediad: £1.50. Tocynnau i'w cael o Siop y Triban, Wyndham Arcade, Caerdydd; Rowlands Music Stores, 19 High Street Arcade, Caerdydd; neu ffonio Caerdydd 612971, neu Caerdydd 390797
Yr elw tuag at Ysgol Feithrin, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

# O'r Ganolfan

Collwyd gwerth tua £500 o offer ac arian pan dorrodd rhywun i mewn i'r ganolfan. Aethpwyd a'r 'safe' yn ei chrynswth, ynghyd a'r teipiadur, taflunydd, camera, cloc, a chyfrifiadur. Yn y 'safe' oedd holl arian mân y ganolfan, yn cynnwys arian yr uwch-adran.

EISTEDDFOD: Mae eisteddfodau'r Urdd yn agosau, ac mae pethau'n dechrau prysuro yn y ganolfan wrth i'r côr, a'r parti dawns ddechrau ymarfer. Yma yn y ganolfan mae'r eisteddfod gylch Gorllewin Caerdydd ac edrychwn ymlaen i gael eich cwmni ar y 4ydd o Fawrth. Yr wythnos wedyn yn ysgol Stanwell, Penarth mae'r Eisteddfod Sir.

UWCH–ADRAN: Dal yn llewyrchus mae'r uwch-adran, yn ddiweddar cafwyd dwy noson o weithgareddau arbennig, yn cynnwys pysgota, coginio, ffotograffiaeth a chrochenwaith. Diolch i bawb a gyfranodd o'u hamser. Gobeithiwn gael noson arall debyg cyn bo hir, ac os oes diddordeb arbennig gennych, a'ch bod yn fodlon ei ranu gyda bob ifanc 11–13 oed, yna cysylltwch ar unwaith â Cen neu Alan.

Ychydig amser yn ol cynhaliwyd cwrs gymnasteg i'r uwch-adran a llwyddodd pawb i gyrraedd y safon angenrheidiol i gael tystysgrif a bathodyn. NOS FAWRTH. Mae amryw o bobl yn cyfarfod yn y ganolfan ar nos Fawrth i chwarae badminton, tenis bwrdd, a snwcer, ac mae croeso i unrhyw un â diddordeb i ddod draw i ymuno yn y gweithgareddau, neu eistedd a gwylio.

YSGRIFENNYDD. Os oes diddordeb gennych mewn swydd rhan amser, neu os gwyddoch am rhywun â diddordeb, rhowch wybod i ni yma yn y ganolfan ar frys.

TYWYDD: Ychydig iawn a amharod y tywydd drwg diweddar ar weithgareddau'r ganolfan, ond clywn am un o'n aelodau blaenllaw, yn cael trafferth gyda'i chytbwysedd oherwydd y gwyliau annisgwyl, a chredir mai dyma'r rheswm iddi hi fethu gorsaf Dinas Powys, a chyraedd Casgwent cyn medru agor ei llygaid. Peth rhyfedd ydi tywydd!







# Dyfodiad y Rheilffordd


gan J. Gwynfor Jones

**Yn 1860, adeiladwyd gorsaf ar dir yng Nghaerdydd a fuasai cyn hynny ym meddiant y 'Spital' (sef yr Ysbyty i'r gogledd o orsaf lleol y Frenhines heddiw) yn 'Crokerton'. Cyn hynny, fodd bynnag, yn 1854, yr oedd *Cwmni Rheilffordd Rhymni* wedi ei ffurfio ar gyfer datblygu adnoddau glofaol Dyffryn Rhymni ac adeiladwyd y twnel i gysylltu Caerffili â Chaerdydd yn y flwyddyn 1871. Ymhellach, yn 1888, gosodwyd cledrau rhwng y cymoedd a'r Barri er mwyn gallu trin a thrafod y cynnyrch enfawr a ddeuai bob dydd, ac yn y flwyddyn ganlynol agorwyd porthladd y Barri ar gyfer allforion. David Davies, Llandinam, y diwydiannwr diwyd o Bowys, a sefydlodd ei *Ocean Coal Company* yn rhannau uchaf y Rhondda, a fu'n gyfrifol am agor y rheilffordd a doc y Barri. Yn wir, cymaint fu twf masnachol y Barri yn ystod y blynyddoedd o hynny ymlaen fel yr agorwyd dau ddoc arall yno yn 1898 a 1914.**

Unwaith yr oedd porthladd Caerdydd wedi ei gysylltu â'r cymoedd y cam nesaf oedd gwella'r cysylltiadau ag Abertawe, Bryste a Llundain i ehangu cylch y fasnach. Yn y flwyddyn 1845 ffurfiwyd *Cwmni Rheilffordd De Cymru* ac wedi hynny, yn 1851, adeiladwyd rheilffordd gan Brunel a gysylltodd Caerdydd â Chasgwent a Chaerloyw yn y dwyrain ac Abertawe yn y gorllewin. Ymhen amser ffurfiodd y rheilffordd hon ran o'r *Great Western Railway Company*. Yr oedd rheilffordd eisoes wedi ei gosod rhwng Llundain a Bryste yn ystod y blynyddoedd 1837 a 1841 ac wedi i dwnel afon Hafren agor yn 1886 bu i'r cysylltiad rhwng Caerdydd, Bryste a Llundain arwain at dwf masnachol pwysig ac at lai o ddibynnu ar fasnach ar lannau'r sianel o gwmpas arfordir de Cymru a Lloegr. Er mwyn hwyluso'r broses o osod y rheilffordd newydd yn rhan deheuol y dref bu'n rhaid ail newid cwrs afon Taf a'i chyfeirio ar hyd y cob, sef yr 'Embankment' fel y gelwir y fan heddiw. Rhwng 1849 a 1853 adeiladwyd pont reilffordd yn agos at yr orsaf newydd a leolwyd y tu allan i Glwyd y Mur Deheuol (sef prif orsaf y rheilffordd heddiw). O'r hen dir ar wely'r afon wreiddiol y datblygwyd *Temperance Town* a'r ardal o amgylch Heol Westgate lle y codwyd y Swyddfa Bost yn 1897 yng nghysgod yr hen gei. O fewn deng mlynedd fe newidiodd cymeriad hen dref Caerdydd yn gyfan gwbl wedi iddi ddod yn ganolfan i'r rhwydwaith yma o reilffyrdd. Hefyd yr oedd adnoddau diwydiannol blaendir Morgannwg erbyn pumdegau'r ganrif yn cael eu cludo i gyd i dref y sir ac yr oedd ei phoblogaeth erbyn hynny wedi codi i dros ugain mil. Y mae'n ddiddorol sylwi, fodd bynnag, fod poblogaeth Merthyr Tydfil yn parhau i fod yn fwy yr adeg honno; yr oedd bron yn hanner can mil yn y flwyddyn 1861.

Yr oedd angen difrifol am sistem o ddociau a fyddai'n gallu trin y fath gynnydd cyson mewn allforion diwydiannol trwm ac yr oedd ail Ardalydd Bute wedi rhagweld yr angen hwnnw lawer blwyddyn ynghynt, yn 1839, pan adeiladodd ddoc y West Bute. Golygai hynny gam mawr ymlaen unwaith eto yn nhwf a ffyniant tref Caerdydd. Yn y rhifyn nesaf cawn drafod yn fanylach effeithiau'r allforio glo a'r dylifiad o bobl o bob rhan o'r byd i'r dref ar lannau Taf.





# Clwb Cymric — Ar drywydd rhwyd

VILLA RHATH I : CLWB CYMRIC I

Cawsom gweir iawn gan y Villa yn gynharach yn y tymor ond stori arall oedd hi'r tro yma. Gôl ffodus ychydig funudau cyn y diwedd a enillodd bwynt i'n gwrthwynebwyr a gallu eu gôl-geidwad a'u cadwodd yn y gem tan hynny.

Calon ein tim yn y gem hon oedd y pedwar yn y cefn a chwaraeodd eu gêm orau fel uned. Gwasgwyd mor dyn ar ymosodwyr y Villa fel na ddaethant yn agos i'r gôl a gorfu iddynt saethu'n obeithiol o bell.

Aethom ar y blaen yn yr hanner cyntaf pan fu raid i'w gôl-geidwad dynnu Rhodri Jos i lawr yn y blwch ac yntau wedi ei guro. Rheon Thomas osododd y bel yn ddestlus yng nghornel y rhwyd. Er cael ambell gynnig teg ar ôl hynny ni lwyddwyd i ychwanegu at y sgôr. Dylsai'r un gôl wedi bod yn ddigon ond nid felly y bu a rhaid oedd setlo am un pwynt da yn erbyn un o dimau'r brig.

MOI PARRI


**Yn ei gerddi, yn rhifyn Ionawr/Chwefror, awgrymodd Moi Parri nad yw'n anrhydedd i chwarae i ail dim Clwb Cymric — atebaf innau'n awr ar gân!**

CERDD AGORED I MOI PARRI!

*Gerwin dy eiriau garw — hwy yrrant*
*dymherau i'r berw,*
*Nid elwa wnawn o d'alw*
*A'th damaid dawn i'r tîm tŵ.*

*Waeth yn ei mintai heini — y gwrol*
*a'r gorau a weli,*
*Ennill un gem eleni —*
*Dyna nôd eu dynion hy!*

*PWT*




# Trafferth Chapter

**Mae'n bosbl na fydd CHAPTER (canolfan i'r celfyddydau, Heol y Farchnad, Canton) yn gallu dangos ffilmiau hwyr o hyn ymlaen. Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod galw amlwg am ffilmiau o'r fath gan yr aelodau a chan bobl sy'n byw yng ngorllewin y ddinas.**

**Bu CHAPTER yn dangos ffilmiau hwyr ers pedair blynedd ar nosweithiau Iau, Gwener a Sadwrn a chredai'r gweinyddwyr, wrth gwrs, fod eu trwydded yn caniatau hyn. Ond yn ddiweddar fe'u hysbyswyd gan Gyngor y Ddinas nad oes ganddynt yr hawl i wneud hyn.**

**Yn ddiymdroi gwnaethpwyd cais am drwydded arbennig i ddangos ffilmiau hwyr — ond *gwrthodwyd y cais*! Y rheswm a roddir am hyn yw fod y sinema hwyr yn achosi trafferth ("nuisance") i drigolion yr ardal o gwmpas CHAPTER. Anodd iawn yw derbyn hyn gan na fu unrhyw gwynion o'r fath erioed o'r blaen.**

**Yn naturiol mae CHAPTER am ymladd y penderfyniad hwn ac eisoes mae nifer fawr o fynychwyr y ganolfan wedi arwyddo deiseb sy'n datgan y dylid caniatau i CHAPTER gael sinema hwyr.**



# AR DRYWYDD BWYD WILHELM TELL

**Fe fydd y rhan fwyaf ohonoch wedi mynd heibio i'r bwyty hwn ond ychydig ohonoch allai ddweud, mae'n debyg, ymhle yn union y mae. Wrth ichi adael canol y ddinas ar hyd Sarn Fidfoel (North Road) edrychwch eto ar y dde ym Maendy ac fe welwch foncyffion fel arwyneb dan arwydd y "Wilhelm Tell" a baner y Swisdir arno.**

Mae tu mewn y bwyty yn ddymunol dros ben, yn werinol yn null y Swisdir gyda cherddoriaeth hwylus sy'n asio â'r celfi a'r llieiniau lliwgar. Nid wyf erioed wedi gweld y lle yn fwy na hanner llawn, ond methaf yn llwyr a dirnad y rheswm am hyn. Mae'r bwyd yn wahanol heb fod yn rhy ddieithr, mae safon y coginio yn aruchel a'r prisiau, er nad ydynt yn rhad, heb fod yn uwch nag amryw i fan bwyta arall yn Nghaerdydd, lle mae'r bwyd yn llawer llai diddorol.

Fe allwch ddechrau, er enghraifft, gyda Chig Eidion wedi'i smygu yn ôl ryseit Talaeith Bern neu trwy fentro ar Fadarch ar dost dan haenen o Saws Caws. Hefyd cynnigir Cawl Wynwns Ffrengig sy'n arbennig o dda.

Mae llawer o'r prydau yn dangos dylanwad coginio'r Almaen, fel y "Rouladen", sef darnau o gig eidion wedi'u rholio a'u stwffio gyda saws arbennig o flasus. Gallwch, os mynnwch, flasu eu cig carw neu'r eog ffordd talaith Zug, neu unrhywun arall o'r danteithion na ellir ei gael yn unman arall yn y ddinas.

Mae'r Swisdir yn enwog am ei theisennau ac yma fe ddowch ar draws Apfelstrudel go iawn ac nid teisen afalau cyffredin o dan ffugenw. Mae'r Schwarswalderkirchtarte (Teisen y Fforest Ddu) yn ysgafn yn ogystal a theg i edrych arni!

Yn y bwyty hwn cewch weini personol a di-ffwdan, gan amlaf gan y berchnoges ei hun sy'n hannu o'r Swisdir. Mae dewis y gwinoedd wedi gwella ers i'r lle agor tua tair blynedd yn ôl, ac anodd yw esbonio pam nad yw pawb wedi tyrru at y cornel yma o'r Swisdir i gael profiad tu hwnt i'r cyffredin.

(146 Sarn Fidfoel.... Caerdydd 29212.)

WENALLT—Y CWMNI AROBRYN




YMLACIWCH YN EIN CERBYD
53-SEDD "VIEWMASTER" NEWYDD.

(cerbydau llai o'r un safon o
foethusrwydd ar gael hefyd.)

CERBYDAU WENALLT

(PERCHENNOG: J.M. CROOKES)

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn: Caerdydd 31174

(Gwasanaeth 24 awr)

HADFIELD ROAD, LECKWITH ESTATE,
CAERDYDD.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd, Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf., Lower Cathedral Rd., Caerdydd; Ffôn: (0222) 396262. C1058.*